| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **2 Mehefin 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol dros Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Ysgol Rhewl** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi gwybod i Aelodau'r Cabinet am ganfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer dyfodol Ysgol Rhewl ac i geisio cefnogaeth i gyhoeddi'r cynnig statudol sy'n ofynnol ar gyfer y broses o gau'r ysgol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad gan y Cabinet i roi cymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam nesaf ar gyfer y cynnig i gau Ysgol Rhewl.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

(i) Nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cau Ysgol Rhewl;

Cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i gau Ysgol Rhewl ar 31 Awst, 2017 gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pen Barras neu Ysgol Stryd y Rhos i gyd-fynd ag agor yr adeiladau ysgol newydd.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymgymryd ag ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig i gau Ysgol Rhewl ar 31 Awst 2017 gyda'r disgyblion yn symud i Ysgol Pen Barras neu Ysgol Rhos Street i gyd-fynd ag agoriad yr adeiladau ysgol newydd. Dechreuodd yr ymgynghoriad ffurfiol ar 10 Chwefror 2015 a daeth i ben ar 23 Mawrth 2015. Ar hyn o bryd, mae gan Ysgol Rhewl 54 o ddisgyblion llawn amser, yn erbyn capasiti o 82 o leoedd. (gweler Atodiad 1 am ddosbarthiad o ddisgyblion) Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys amrywiaeth o gyfarfodydd ar gyfer rhanddeiliaid a holiadur i gael barn plant a rhieni. Cawsom 19 o lythyrau a negeseuon e-bost a 93 o ffurflenni ymateb ar-lein. Mae crynodeb o'r holl sylwadau a gafwyd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol (gweler Atodiad 2).

Canfyddiadau'r Ymgynghoriad Ffurfiol

4.2 O'r 112 o ymatebion a gafwyd, roedd gan 85 ohonynt gysylltiad ag Ysgol Rhewl. Cafwyd 16 o ymatebion cadarnhaol yn cefnogi'r cynnig a 96 o ymatebion yn erbyn y cynnig. Dyma’r prif faterion a gododd o'r cynnig:-

| **Mater** | **Pryder** | **Ymateb** |
|---|---|---|
| Datblygiad Glasdir | Pryderon ynghylch yr ardal ddatblygu, gan gynnwys cynllunio, perygl llifogydd a materion traffig | Mae pob un o'r materion hyn wedi’u hystyried fel rhan o'r gwaith dichonoldeb ar safle Glasdir |
| Effaith ar Iaith | Colli darpariaeth ddwyieithog – mae Rhewl yn darparu darpariaeth dwy ffrwd | Does dim llawer o ddisgyblion wedi’u hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd diwethaf. Mae pryder ynghylch a all yr ysgol ddarparu ar gyfer dwy ffrwd lawn ar hyn o bryd |
| Cryfderau Ysgol Rhewl | Mae gan yr ysgol safonau a chyfleusterau da | Bydd y cyfleusterau yn Glasdir yn addas i'r diben ac mae gan Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Pen Barras safonau da hefyd |
| Cymuned | Bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar awyrgylch y gymuned | Nodwyd y pryderon ac mae’r Cyngor yn gweithio gyda'r ysgolion a'r gymuned i liniaru hyn lle bo modd |
| Proses Ymgynghori | Pryder ynghylch hyd y cyfnod ymgynghori a ph’un a yw'r gweithdrefnau wedi’u dilyn | Mae gwaith ymgynghori wedi’i gynnal yn unol â Chod Trefniadaeth yr Ysgol. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer 42 diwrnod o ymgynghori yn unol â’r ymgynghoriad hwn |
| Datblygiad Tai | Mae’n debygol y bydd cynnydd yn nifer y tai yn y pentref | Ystyriwyd y cynnydd tebygol yn nifer y tai pan gafodd y cynnig ei ddrafftio |

4.3 Mae'r ymateb llawn i'r materion a godwyd wedi’i gynnwys yn Atodiad 2. Wrth ystyried yr ymatebion hyn, mae'r Cyngor yn parhau i fod o'r farn y byddai cau Ysgol Rhewl o 31 Awst, 2017, gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Stryd y Rhos neu Ysgol Pen Barras, yn cynrychioli'r opsiwn gorau ar gyfer sicrhau y bydd disgyblion yn yr ardal yn parhau i fod yn gallu cael mynediad at safonau addysg da mewn cyfleusterau modern, addas at y diben.

Y ffordd ymlaen

4.6 Yn dilyn casgliad y cyfnod ymgynghori, argymhellir bod y Cyngor yn mynd ati i gyhoeddi hysbysiad statudol yn seiliedig ar y cais presennol. Bydd yn ofynnol i'r Hysbysiad Statudol gael ei gyhoeddi am 28 diwrnod. Yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod hwn, bydd cyfle i unrhyw un sydd am wneud gwrthwynebiadau i'r

cynnig wneud hynny. I gael eu hystyried fel gwrthwynebiadau statudol, rhaid iddynt gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu dros e-bost, a'u hanfon at y cynigydd o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y cynnig ei gyhoeddi. Yn amodol ar gymeradwyaeth, y bwriad yw y bydd y cynnig hwn yn cael ei gyhoeddi ar 16 Mehefin 2015, gyda'r cyfnod gwrthwynebu yn dod i ben ar 13 Gorffennaf 2015.

4.7 Yn dilyn y dyddiad hwn, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad gwrthwynebiadau a gofynnir i'r Cabinet ddefnyddio ei bwerau o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ystyried unrhyw wrthwynebiadau a gyflwynir ac i benderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r cynnig yn cefnogi'r flaenoriaeth o "Wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd ein hadeiladau ysgol" ac wedi'i amlygu fel ffrwd waith fel a ganlyn: "Byddwn yn parhau i adolygu darpariaeth ysgol ar draws y Sir i sicrhau ein bod yn darparu'r nifer cywir o leoedd ysgol, a'u bod o'r math cywir, yn y lleoliad cywir.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Ni fydd llawer o gostau i'r Cyngor i gyhoeddi'r rhybuddion statudol. Costau postio ac argraffu yn gysylltiedig â'r cyhoeddiad gwirioneddol fydd y costau hyn yn bennaf. Mae'r gofyniad am hysbysiadau o'r fath i'w cyhoeddi mewn papurau newydd lleol bellach wedi cael ei ddileu er mwyn lleihau costau o'r fath.

6.2 Os byddai'r argymhelliad yn cael ei gymeradwyo, byddai'r ysgol yn parhau mewn grym tan fis Awst 2017. Yn y cyfnod hwn, gallai costau cludiant ychwanegol godi, yn dibynnu ar ddewis y rhieni. Pe bai hyn yn digwydd, byddai trafodaethau'n cael eu cynnal gyda chydweithwyr yn yr adran Briffyrdd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Prif effaith y cynnig hwn fyddai newid yn yr amgylchedd dysgu ar gyfer disgyblion presennol yr ysgol ar y pwynt cau (os byddai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu).

7.2 Gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar rai o'r nodweddion a ddiogelir, yn benodol i bobl anabl. Mae'r cynnig yn argymell bod disgyblion presennol yn trosglwyddo i gyfleusterau addysgol newydd, a adeiladwyd yn bwrpasol, a fyddai'n cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb llawn wedi'i gynnwys fel Atodiad 3.

## 8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn gyda'r holl fudd-ddeiliaid ac mae crynodeb o'r cyfnod Ymgynghori Ffurfiol ym mhrif gorff yr adroddiad.

## *9.* Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes cost sylweddol i'r broses statudol a chaiff ei gyfyngu o fewn adnoddau presennol. Bydd y gost ar arbedion llawn o'r prosiect, gan gynnwys unrhyw effaith ar gludiant ysgolion, yn dod yn glir fel y bydd yn datblygu a bydd argymhellion clir ynglyn ar rhain yn cael eu gwneud pan fo'n briodol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae posibilrwydd cryf y gallai'r cynnig arwain at gyhoeddusrwydd anffafriol ar gyfer y Cyngor a sylwadau cyhoeddus andwyol.
Er mwyn lleihau'r risg hon, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cyfathrebu clir gyda'r holl fudd-ddeiliaid.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Safonau a Sefydliadau Ysgolion (Cymru) 2013
Fframwaith Bolisi Moderneiddio Addysg (cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2009)